

CYNGHORION BRIG GAN POBL IFANC

Y Ffordd Gywir – Gofal Cymdeithasol –

Buon ni'n gweithio gyda llawer o grwpiau ledled Cymru yn gofyn am eu safbwyntiau er mwyn ein helpu ni i greu Y Ffordd Gywir – Gofal Cymdeithasol. Dyma rai o'r cynghorion syml roedden nhw am eu rhannu...

Cyngor ar gyfer gweithwyr

- Byddwch yn garedig
- Peidiwch bod yn awdurdodol
- Mae bod yn amyneddgar yn allweddol
- Fydd pawb ddim yn ymddiried ynddoch chi – peidiwch cymryd hynny'n bersonol
- Mae argraffiadau cyntaf yn para
- Peidiwch dilyn y rheolau mae pobl ifanc eraill sy'n fwy drwg wedi'u creu.
- Meddyliwch amdana i fel plentyn eich ffrind neu blentyn rhywun arall yn hytrach nag 'achos'.
- Peidiwch meddwl bod pob plentyn yn ddrwg, mae'r rhan fwyaf ohonon ni'n iawn
- Dewch i'n nabod ni fel byddech chi'n gwneud gyda phlentyn eich ffrind
- Peidiwch bod mor ddifrifol drwy'r amser
- Byddwch yn agored ac yn onest
- Byddwch yn hyderus – neu fel arall fydd pobl ddim yn credu beth rydych chi'n ei ddweud
- Byddwch yn gefnogol bob amser
- Peidiwch rhoi pwysau ar bobl oni bai eu bod nhw'n barod i rannu
- Mae angen iddyn nhw drio'u gorau i gael y lleoliad gorau i blant, fel bod dim angen iddyn nhw symud o gwmpas o hyd
- Mae angen iddyn nhw fod â rhinweddau personoliaeth penodol – yn hyderus, yn gyfeillgar, yn gwrando'n dda ac yn cydymdeimlo
- Cadwch ni'n ddiogel
- Dwedwch helo a chyflwynwch eich hunan
- Gwnewch yn siŵr fod plentyn yn hapus yn eu cartref maeth
- Byddwch yn gwrtais

“Peidiwch cymryd yn ganiataol bod rhywun yn flin neu'n ddrwg oherwydd y ffordd maen nhw'n ymddwyn, mae'n bosib bod rhywbeth mwy yn digwydd tu ôl i ddrysau caeedig.”